**Rhif:** WG42768

Llywodraeth Cymru
Dogfen Ymgynghori

# Addysg gyrfaoedd, a Phrofiadau sy'n Gysylltiedig â Byd Gwaith

Dyddiad cyhoeddi: 21 Mai 2021
Camau i'w cymryd: Ymatebion erbyn 16 Gorffennaf 2021

OGL © Hawlfraint y Goron

# Addysg gyrfaoedd, a Phrofiadau sy'n Gysylltiedig â Byd Gwaith

## Trosolwg

Cyhoeddwyd Fframwaith Cwricwlwm i Gymru ar 28 Ionawr 2020. Cyn ei gyhoeddi, roedd y Fframwaith yn destun ymgynghoriad eang a helaeth. Roedd yr adborth a gafwyd yn dangos pa ganllawiau penodol, ychwanegol y byddai eu hangen ar ysgolion a lleoliadau er mwyn cynllunio a gwireddu eu cwricwlwm eu hunain yn llwyddiannus. Ymrwymodd Llywodraeth Cymru i gyhoeddi:

- canllawiau ar gyfer crefydd, gwerthoedd a moeseg
- canllawiau ar gyfer addysg cydberthynas a rhywioldeb
- canllawiau ar gyfer gyrfaoedd, a phrofiadau sy'n gysylltiedig â byd gwaith
- canllawiau i gefnogi ymarferwyr sy'n gweithio gyda dysgwyr ar ddechrau'r continwwm dysgu
- fframwaith cwricwlwm ac asesu i'w fabwysiadu gan leoliadau meithrin nas cynhelir a ariennir
- canllawiau ar ddatblygu cwricwlwm ar gyfer y rhai sy'n gyfrifol am addysg heblaw yn yr ysgol
- canllawiau ar gyfer Iaith Arwyddion Prydain.

Mae'r cam adborth hwn yn croesawu eich barn ar ganllawiau ychwanegol Cwricwlwm i Gymru ar gyfer gyrfaoedd, a phrofiadau sy'n gysylltiedig â byd gwaith.

Datblygwyd y canllawiau drafft gan ymarferwyr drwy broses o gyd-adeiladu sydd wedi'i gefnogi gan arbenigwyr eraill. Mae'r cyfnod adborth hwn yn rhan o'r broses gyd-adeiladu. Mae'n rhoi cyfle i'r holl ymarferwyr a rhanddeiliaid eraill gyfrannu a chefnogi datblygiad y canllawiau ymhellach.

Bydd y cyfnod adborth yn dod i ben ar 16 Gorffennaf 2021 ac ar ôl hynny bydd yr holl ymatebion yn cael eu hystyried a'u dadansoddi'n annibynnol, yn ogystal â chan ymarferwyr ac eraill yn y gweithgorau. Yna caiff y canllawiau drafft eu mireinio mewn ymateb i adborth a byddant yn rhan o ddiweddariad i Fframwaith Cwricwlwm i Gymru yn hydref 2021, i'w defnyddio gan ysgolion a lleoliadau wrth gynllunio, dylunio a gweithredu'r cwricwlwm.

**Sut i ymateb**

Dylid e-bostio/postio ymatebion i'r ymgynghoriad hwn i'r cyfeiriad isod i gyrraedd erbyn 16 Gorffennaf fan hwyraf.

**Rhagor o wybodaeth a dogfennau cysylltiedig**

**Gellir gwneud cais am fersiynau o'r ddogfen hon mewn print bras, mewn Braille neu mewn ieithoedd eraill.**

Mae canllawiau Cwricwlwm i Gymru ar gael ar: https://hwb.gov.wales/cwricwlwm-i-gymru

Mae fersiwn hawdd ei ddarllen ar gael ar: https://hwb.gov.wales/cwricwlwm-i-gymru/cwricwlwm-newydd-yng-nghymru-hawdd-ei-ddeall/

Mae canllaw ar gyfer plant, pobl ifanc a theuluoedd ar gael ar: https://hwb.gov.wales/cwricwlwm-i-gymru/cwricwlwm-newydd-yng-nghymru-canllaw-ar-gyfer-plant-pobl-ifanc-a-theuluoedd/

Mae'r dogfennau ymgynghori ar gael o wefan Llywodraeth Cymru yn llyw.cymru/ymgynghoriadau

**Manylion cysylltu**

I gael rhagor o wybodaeth:

Uned Gwireddu'r Cwricwlwm
Is-adran Cwricwlwm ac Asesu
Y Gyfarwyddiaeth Addysg
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ

e-bost: cwricwlwmigymru@llyw.cymru

@LIC_Addysg

Facebook/AddysgCymru

## Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol

Llywodraeth Cymru fydd y rheolydd data ar gyfer unrhyw ddata personol a ddarperir gennych wrth ichi ymateb i'r ymgynghoriad. Mae gan Weinidogion Cymru bwerau statudol y byddant yn dibynnu arnynt i brosesu'r data personol hyn a fydd yn eu galluogi i wneud penderfyniadau cytbwys ynghylch sut y maent yn cyflawni eu swyddogaethau cyhoeddus. Bydd unrhyw ymateb a anfonwch atom yn cael ei weld yn llawn gan staff Llywodraeth Cymru sy'n gweithio ar y materion y mae'r ymgynghoriad hwn yn ymwneud â nhw neu sy'n cynllunio ymgyngoriadau ar gyfer y dyfodol. Pan fo Llywodraeth Cymru yn cynnal dadansoddiad pellach o'r ymatebion i ymgynghoriad, gall trydydd parti achrededig (e.e. sefydliad ymchwil neu gwmni ymgynghori) gael ei gomisiynu i wneud y gwaith hwn. Ymgymerir â gwaith o'r fath dim ond o dan gontract. Mae telerau ac amodau safonol Llywodraeth Cymru ar gyfer contractau o'r fath yn nodi gofynion caeth ar gyfer prosesu a cadw data personol yn ddiogel.

Er mwyn dangos bod yr ymgynghoriad wedi'i gynnal yn briodol, mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu cyhoeddi crynodeb o'r ymatebion i'r ddogfen hon. Mae'n bosibl hefyd y byddwn yn cyhoeddi'r ymatebion yn llawn. Fel arfer, bydd enw a chyfeiriad (neu ran o gyfeiriad) yr unigolyn neu'r sefydliad a anfonodd yr ymateb yn cael eu cyhoeddi gyda'r ymateb. Os nad ydych yn dymuno i'ch enw a'ch cyfeiriad gael eu cyhoeddi, rhowch wybod inni yn ysgrifenedig wrth anfon eich ymateb. Byddwn wedyn yn cuddio'ch manylion cyn cyhoeddi'ch ymateb.

Dylech hefyd fod yn ymwybodol o'n cyfrifoldebau o dan ddeddfwriaeth Rhyddid Gwybodaeth.

Os caiff eich manylion chi eu cyhoeddi fel rhan o'r ymateb i'r ymgynghoriad, caiff yr adroddiadau hyn eu cadw am gyfnod amhenodol. Ni fydd gweddill eich data a gedwir fel arall gan Lywodraeth Cymru yn cael eu cadw am fwy na thair blynedd.

## Eich hawliau

O dan y ddeddfwriaeth diogelu data, mae gennych yr hawl:

- i wybod am y data personol a gedwir amdanoch chi a'u gweld
- i'w gwneud yn ofynnol inni gywiro gwallau yn y data hynny
- (o dan rai amgylchiadau) i wrthwynebu neu gyfyngu ar brosesu'r data
- (o dan rai amgylchiadau) i'ch data gael eu 'dileu'
- (o dan rai amgylchiadau) i gludadwyedd data
- i gyflwyno cwyn i Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth (SCG), ein rheoleiddiwr annibynnol ar gyfer diogelu data.

I gael rhagor o fanylion am yr wybodaeth y mae Llywodraeth Cymru yn ei chadw ac am y defnydd a wneir ohoni, neu os ydych am arfer eich hawliau o dan y Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol, gweler y manylion cyswllt isod:

Y Swyddog Diogelu Data:
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
Caerdydd, CF10 3NQ
e-bost: Swyddogdiogeludata@llyw.cymru

Dyma fanylion cyswllt Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth:
Wycliffe House
Water Lane
Wilmslow
Sir Caer
SK9 5AF

Ffôn: 01625 545 745 neu 0303 123 1113
Gwefan: https://ico.org.uk/

## Cynnwys

**1. Cyflwyniad** **2**

Pam mae Addysg a phrofiadau byd gwaith yn bwysig mewn ysgolion a lleoliadau 3

**2. Cyd-destunoli sgiliau drwy Addysg a phrofiadau byd gwaith** **5**

**3. Cyd-destunoli'r meysydd dysgu a phrofiad drwy Addysg a phrofiadau byd gwaith** **6**

**4. Cynllunio Addysg a phrofiadau byd gwaith o fewn y cwricwlwm** **9**

**5. Cyfranwyr ar gyfer darpariaeth Addysg a phrofiadau byd gwaith effeithiol** **11**

**6. Cymorth ac arweiniad i ysgolion a lleoliadau** **13**

**Rhestr Termau** **15**

## 1. Cyflwyniad

Datblygwyd y canllawiau i helpu ymarferwyr mewn ysgolion a lleoliadau i drefnu a chynllunio Addysg Gyrfaoedd a Phrofiadau sy'n Gysylltiedig â Byd Gwaith ('Addysg a phrofiadau byd gwaith') a'u rhoi ar waith. Mae hon yn thema drawsbynciol o fewn *Cwricwlwm i Gymru* i ddysgwyr rhwng 3 ac 16 oed.

Mae Addysg a phrofiadau byd gwaith effeithiol yn cynnwys addysg gyrfaoedd sy'n briodol i oedran a cham datblygu'r disgyblion a gaiff ei hymgorffori ym mhob maes dysgu a phrofiad ('Maes/Meysydd'), ac a gefnogir gan amrywiaeth eang o brofiadau ac amgylcheddau dysgu perthnasol sy'n gysylltiedig â byd gwaith. Bydd hyn yn helpu i sicrhau bod dysgwyr yn ymddiddori mewn Addysg a phrofiadau byd gwaith ym mhob rhan o'r ysgol.

Rydym yn gwahodd adborth ar y canllawiau ac yn bwriadu darparu adnoddau i gefnogi ysgolion a lleoliadau i gynllunio a gweithredu Addysg a phrofiadau byd gwaith o fewn y cwricwlwm.

<u>Statws y canllawiau</u>

Mae'r canllawiau hyn yn statudol ac yn cael eu dyroddi o dan adran 71 Deddf Cwricwlwm ac Asesu (Cymru) 2021 ("y Ddeddf"). Rhaid i'r personau/cyrff sy'n gyfrifol am ddylunio cwricwlwm Addysg a phrofiadau byd gwaith ddarllen ac ystyried y canllawiau hyn wrth ddylunio'r maes llafur hwnnw.

O dan y Ddeddf, mae'r canllawiau hyn yn statudol ar gyfer y personau/cyrff canlynol:

- pennaeth ysgol a gynhelir neu ysgol feithrin a gynhelir;
- corff llywodraethu ysgol a gynhelir neu ysgol feithrin a gynhelir;
- darparwr addysg feithrin a ariennir nas cynhelir;
- athro sy'n gyfrifol am uned cyfeirio disgyblion;
- pwyllgor rheoli uned cyfeirio disgyblion;
- person sy'n darparu addysg a dysg i blentyn y tu allan i ysgol a gynhelir, ysgol feithrin a gynhelir neu uned cyfeirio disgyblion[1];

[1] Fel yr amlinellir yn adran 50 o'r Ddeddf, nid yw'n ofynnol i'r lleoliadau hyn ddylunio cwricwlwm ar gyfer pob Maes. Fodd bynnag rhaid iddynt gynnwys Maes Iechyd a Lles, a chynnwys y Meysydd Dysgu a

- awdurdod lleol yng Nghymru.

Mae'r cyfeiriadau at 'ysgolion a lleoliadau' yn y canllawiau yn cyfeirio at y personau/cyrff uchod a ddylai ystyried y canllawiau hyn.

Gall y canllawiau hyn fod yn ddefnyddiol ar gyfer y rheini sy'n rhan o'r gwaith o gynllunio, dylunio a gweithredu cwricwlwm, megis:

- uwch-arweinwyr
- cydlynwyr/arweinwyr Addysg a phrofiadau byd gwaith
- cydlynwyr lleoliadau gwaith
- pob ymarferydd mewn ysgolion a lleoliadau, gan gynnwys y rhai sy'n gweithio gyda dysgwyr ag Anghenion Dysgu Ychwanegol
- y rhai sy'n gweithio mewn sefydliadau addysg eraill sy'n gweithio mewn partneriaeth ag ysgolion a lleoliadau, megis sefydliadau addysg bellach ac addysg uwch
- y rhai sy'n gweithio mewn lleoliadau meithrin a ariennir nas cynhelir.

Caiff rhaglenni Addysg a phrofiadau byd gwaith eu cyflwyno orau mewn partneriaeth ag amrywiaeth eang o bobl a sefydliadau. Gallai fod yn ddefnyddiol i'r bobl a'r sefydliadau canlynol sydd â diddordeb mewn Addysg a phrofiadau byd gwaith nodi'r canllawiau hyn[2]:

- busnesau, cymunedau, sefydliadau elusennol, sefydliadau gwirfoddol a rhai eraill sy'n gweithio mewn partneriaeth ag ysgolion a lleoliadau
- anogwyr dysgu
- tiwtoriaid personol
- Gyrfa Cymru
- rhieni a gofalwyr.

Mae Addysg a phrofiadau byd gwaith yn seiliedig ar feithrin cydberthnasau effeithiol â rhanddeiliaid allanol, yn enwedig cyflogwyr a phartneriaid a all gefnogi ysgolion i gyflawni deilliannau effeithiol o fewn Addysg a phrofiadau byd gwaith.

## Pam mae Addysg a phrofiadau byd gwaith yn bwysig mewn ysgolion a lleoliadau

Mae Addysg a phrofiadau byd gwaith yn galluogi dysgwyr i ddatblygu eu gwybodaeth, eu sgiliau a'u dealltwriaeth yn barod ar gyfer heriau a chyfleoedd dysgu pellach a'r byd gwaith sy'n datblygu'n barhaus. Mae Addysg a phrofiadau byd gwaith yn cyfrannu at ymdrechion dysgwyr i wireddu pedwar diben Cwricwlwm i Gymru.

O dair oed ymlaen, dylai Addysg a phrofiadau byd gwaith ysbrydoli dysgwyr i wneud y canlynol:

- meithrin dealltwriaeth o ddiben byd gwaith iddyn nhw eu hunain ac i'r gymdeithas gyfan
- dod yn fwyfwy ymwybodol o'r amrywiaeth o gyfleoedd sydd ar gael iddynt, gan ehangu eu gorwelion

---


Phrofiad eraill dim ond i'r graddau sy'n rhesymol bosibl ac sy'n briodol. Dylai'r lleoliadau ddarllen y canllawiau hyn ynglŷn â sut i roi cyd-destun i Addysg a phrofiadau byd gwaith o fewn y cwricwlwm ac ynghylch y Maes Iechyd a Lles yn benodol. Dylai'r athro sy'n gyfrifol, y pwyllgorau rheoli a'r awdurdodau lleol ddarllen canllawiau eraill ar ddylunio cwricwlwm ar gyfer y lleoliadau hyn.

[2] Nid yw'r Ddeddf yn gosod rhwymedigaeth gyfreithiol ar y bobl a'r sefydliadau hyn i roi sylw i'r canllawiau.

- datblygu'r agweddau a'r ymddygiadau sydd eu hangen i oresgyn rhwystrau i gyflogadwyedd, rheoli gyrfa a dysgu gydol oes
- ystyried cyfleoedd drwy amrywiaeth o brofiadau ystyrlon ym maes dysgu, gwaith ac entrepreneuriaeth
- datblygu gwydnwch a'r gallu i addasu mewn ymateb i heriau, dewisiadau a chyfrifoldebau gwaith a bywyd.

Mae Ffigur 1 yn dangos pwysigrwydd y cyfranwyr a'r dylanwadau allweddol wrth i bobl ifanc wneud penderfyniadau ynghylch gyrfa, a sut y dylai ysgolion a lleoliadau ystyried y rhain wrth gynllunio Addysg a phrofiadau byd gwaith o fewn eu cwricwlwm.

**Ffigur 1 Cynllunio Addysg a phrofiadau byd gwaith o fewn y cwricwlwm newydd**



## 2. Cyd-destunoli sgiliau drwy Addysg a phrofiadau byd gwaith

Dylai ysgolion a lleoliadau helpu dysgwyr i ddechrau gwerthfawrogi pwysigrwydd defnyddio sgiliau sy’n hanfodol i’r pedwar diben mewn profiadau ystyrlon sy'n gysylltiedig â gyrfaoedd a byd gwaith. Dylent annog canfyddiad datblygol dysgwyr o'u cyfraniad posibl at fyd gwaith yn y dyfodol. Bydd y dysgu hyn yn datblygu i'w galluogi i werthfawrogi sut y gall eu cyfraniadau fod o fudd iddyn nhw eu hunain ond hefyd i ffyniant eu cymunedau yn ogystal â Chymru a'r byd ehangach yn y dyfodol.

### Sgiliau sy'n hanfodol i'r Pedwar Diben

**Creadigrwydd ac arloesedd** – Drwy gynnwys dysgwyr yn weithredol mewn enghreifftiau bywyd go iawn o'r byd gwaith, gallant ddatblygu eu hyder wrth fod yn chwilfrydig ac yn ymholgar. Bydd hyn yn galluogi dysgwyr i ddechrau ystyried, archwilio a llunio atebion gwreiddiol i broblemau, sy'n rhoi cyfleoedd i ddatblygu ffordd entrepreneuraidd o feddwl. Mae sgiliau sy'n cyfrannu at greu unigolion creadigol ac arloesol yn cael eu gwerthfawrogi fwy a mwy gan gyflogwyr ym mhob sector, gan y gall y sgiliau hyn gefnogi datblygiadau ynghyd â gwelliant parhaus o ran effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd diwydiant.

**Meddwl yn feirniadol a datrys problemau** – Wrth i ddysgwyr ddechrau datblygu eu sgiliau meddwl yn feirniadol a datrys problemau, gellir defnyddio cyd-destunau Addysg a phrofiadau byd gwaith i'w hannog i gymryd risgiau. Bydd cymhwyso'r sgiliau hyn i'w llwybr gyrfa eu hunain yn cefnogi dysgwyr i ddeall y berthynas rhwng risg a gwobr yn well, a'r ffordd y mae hyn yn effeithio ar eu profiad o fyd gwaith. Dylai dysgwyr ddadansoddi amrywiaeth eang o wybodaeth yn feirniadol er mwyn llywio eu barn a'u safbwyntiau mewn perthynas â byd gwaith. Bydd hyn yn eu cefnogi i ddeall ac ystyried effaith eu penderfyniadau, heddiw ac ar genedlaethau'r dyfodol.

**Effeithiolrwydd Personol** – Mae hunanymwybyddiaeth a hyder cynyddol dysgwyr yn cyfrannu at eu gwerthfawrogiad o'u hunanwerth a'r ffordd y mae hyn yn cysylltu â'r hyn y gallant ei gynnig i fyd gwaith. Mae cyflogwyr yn gwerthfawrogi sgiliau megis cyfrannu at dîm, arweinyddiaeth, gwydnwch a'r gallu i fyfyrio, addasu a newid mewn sefyllfaoedd gwahanol. Dylai dysgwyr fyfyrio ar eu heffeithiolrwydd yn ystod gyrfaoedd, a phrofiadau sy'n gysylltiedig â byd gwaith gan eu galluogi i nodi cryfderau a meysydd ar gyfer hyfforddiant a datblygiad pellach. Mae datblygu parodrwydd i ddysgu yn annog dysgwyr i fod yn agored i feithrin sgiliau newydd. Gall hyn ddatblygu eu gallu i addasu, gan eu galluogi i fanteisio ar ragor o gyfleoedd o fewn byd gwaith.

**Cynllunio a Threfnu** – Wrth i ddysgwyr ddechrau profi'r sgiliau hyn drwy brofiadau go iawn, byddant yn arwain at ddatblygu sgiliau gwneud penderfyniadau a meddwl yn fyfyriol. Mae'r profiadau hyn yn galluogi dysgwyr i gymhwyso eu sgiliau cynllunio a threfnu mewn cyd-destun Addysg a phrofiadau byd gwaith, megis rhoi syniadau ar waith, gosod nodau, rheoli amser a monitro canlyniadau a myfyrio arnynt. Gellir annog dysgwyr i dyfu’n gynyddol annibynnol, a fydd yn eu helpu i gymryd mwy o gyfrifoldeb am eu datblygiad o ran eu gwaith a'u hastudiaethau. Mae cyflogwyr yn gwerthfawrogi'r gallu i gynllunio a threfnu yn effeithiol, ac mae angen i ddysgwyr gael eu cefnogi i ddeall perthnasedd y sgiliau hyn er mwyn iddyn nhw allu cyflawni eu huchelgeisiau.

**Sgiliau trawsgwricwlaidd**

Dylai ysgolion a lleoliadau helpu dysgwyr i ddechrau gwerthfawrogi pwysigrwydd defnyddio eu sgiliau trawsgwricwlaidd o fewn profiadau ystyrlon sy'n gysylltiedig â gyrfaoedd a gwaith.

**Llythrennedd** – Mae angen gallu cyfathrebu'n effeithiol a chymhwyso sgiliau llythrennedd mewn cyd-destunau gwahanol er mwyn llwyddo yn y byd gwaith. Mae datblygu sgiliau cyfathrebu effeithiol yn galluogi dysgwyr i ymddiddori mewn gyrfaoedd, a phrofiadau sy'n gysylltiedig â byd gwaith, gyda chyfleoedd i ystyried barn a safbwyntiau pobl eraill. Bydd hyn yn helpu dysgwyr i ddeall pwysigrwydd datblygu cydberthnasau cadarnhaol o fewn byd gwaith.

**Rhifedd** – Mae angen gallu defnyddio sgiliau rhifedd yn effeithiol er mwyn llwyddo o fewn byd gwaith. Mae angen i ddysgwyr feithrin yr hyder i gymhwyso eu sgiliau rhifedd wrth ddefnyddio a dadansoddi data a phwysigrwydd rheoli arian mewn bywyd a gwaith. Wrth i ddysgwyr wneud cynnydd o ran eu sgiliau rhifedd, dylent gael cyfleoedd i gymhwyso gwybodaeth mewn cyd-destunau Addysg a phrofiadau byd gwaith gwahanol.

**Cymhwysedd Digidol –** Yn gynyddol, mae angen gallu defnyddio technoleg ddigidol mewn amrywiaeth eang o sefyllfaoedd er mwyn llwyddo o fewn byd gwaith. Mae'r byd gwaith yn datblygu'n barhaus ac yn dod yn fwyfwy rhyngwladol, felly mae angen i ddysgwyr feithrin eu hyder a'u medrusrwydd digidol a fydd yn gwella eu sgiliau cyfathrebu, yn ogystal â'u gallu i fanteisio ar gyfleoedd Addysg a phrofiadau byd gwaith a dadansoddi gwybodaeth o'r tu allan i'w hardal eu hunain.

Gall effaith ôl digidol dysgwr bara'n hir ac effeithio ar ei ragolygon gyrfa, yn gadarnhaol ac yn negyddol. Dylid annog dysgwyr i gwestiynu dilysrwydd a chywirdeb yr wybodaeth a geir ar lwyfannau digidol a all ddylanwadu ar eu dewisiadau bywyd.

## 3. Cyd-destunoli'r meysydd dysgu a phrofiad drwy Addysg a phrofiadau byd gwaith

Dylid datblygu Addysg a phrofiadau byd gwaith ym mhob rhan o'r cwricwlwm fel y gall dysgwyr archwilio a deall byd gwaith mewn cyd-destunau sy'n briodol i'w cam datblygu. Mae Addysg a phrofiadau byd gwaith yn cynnig cyfleoedd dysgu yn y byd go iawn a phrofiadau ar gyfer datblygu eu sgiliau a chymhwyso eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth yn y Meysydd. Drwy wneud hynny, mae Addysg a phrofiadau byd gwaith yn cefnogi'r gwaith o greu cwricwlwm pwrpasol a chyfleoedd dysgu ystyrlon sy'n hollbwysig er mwyn sicrhau bod dealltwriaeth a dewisiadau gyrfa dysgwyr yn cynyddu wrth iddynt ddatblygu.

### Y Celfyddydau Mynegiannol

Mae Addysg a phrofiadau byd gwaith yn galluogi dysgwyr i feithrin eu hyder o ran creadigrwydd, arweinyddiaeth a chydweithio, sy'n hanfodol ar gyfer entrepreneuriaeth a bod yn arloesol yn y gweithle. Mae'r Maes hwn yn rhoi'r sgiliau angenrheidiol i ddysgwyr allu dilyn gyrfaoedd yn y diwydiannau creadigol a diwylliannol.

Dylai ysgolion a lleoliadau ddechrau wrth roi cyfleoedd i ddysgwyr fod yn greadigol drwy brofiadau gwirioneddol a rhai sy'n seiliedig ar chwarae. Wrth i ddysgwyr ddatblygu, dylid

eu hannog i feithrin eu hyder i gymryd risgiau a dysgu o'u profiadau. Gall dysgwyr fod yn fwy gwydn i oresgyn heriau os ydynt yn chwilio am atebion creadigol.

Dylid rhoi cyfleoedd i ddysgwyr rannu eu gwaith creadigol ac ymateb i waith pobl eraill. Drwy wneud hyn, cânt eu hannog i fod yn fwy hyderus wrth roi adborth ac yn gynyddol ymwybodol o effaith ddiwylliannol a masnachol eu gwaith. Dylid annog dysgwyr i ddefnyddio eu sgiliau creadigol i wireddu eu huchelgeisiau.

**Iechyd a Lles**

Er mwyn cael ymdeimlad cryf o les, mae angen i ddysgwyr fynegi eu hoff bethau a'u cas bethau yn seiliedig ar eu diddordebau a'u profiadau. Er mwyn iddynt gymryd cyfrifoldeb am eu lles eu hunain, mae angen i ddysgwyr allu deall a chyfleu eu hemosiynau. Wrth iddynt wneud cynnydd, dylai dysgwyr ddatblygu ymwybyddiaeth o amrywiaeth o brofiadau a rolau cysylltiedig â gwahanol agweddau ar fyd gwaith sy'n berthnasol i'w dysgu, eu sgiliau a'u diddordebau.

Drwy ddatblygu gwydnwch a'r gallu i addasu, bydd dysgwyr yn gallu gwneud penderfyniadau ar sail gwybodaeth ynghylch eu llwybr gyrfa a all ddylanwadu ar eu lles hefyd. Gall dysgwyr feithrin dealltwriaeth o'r angen i archwilio a chasglu profiadau, gwybodaeth a sgiliau sy'n berthnasol i'w huchelgeisiau. Mae cael gafael ar gyngor diduedd a diragfarn yn bwysig er mwyn llywio proses benderfynu'r dysgwr.

Wrth i'r dysgwr aeddfedu, dylid gweld ymddygiadau cadarnhaol mewn perthynas â rheoli amser a phrydlondeb o fewn cyd-destun eu dysgu, ac fel rhinweddau pwysig er mwyn llwyddo o fewn byd gwaith. Gall datblygu ffyrdd proffesiynol o ymddwyn gyfrannu at wella lles drwy gefnogi cydberthnasau gwaith cadarnhaol.

Drwy amrywiaeth eang o brofiadau ystyrlon, gall dysgwyr feithrin dealltwriaeth o'r pwyslais y mae cyflogwyr yn ei roi ar gael gweithlu amrywiol a chynhwysol. Mae dysgu am stereoteipiau, a gallu eu herio, yn datblygu ymwybyddiaeth o hawliau'r dysgwr o fewn byd gwaith.

**Y Dyniaethau**

Mae Addysg a phrofiadau byd gwaith yn galluogi dysgwyr i ddechrau archwilio ac ymchwilio i yrfaoedd y gorffennol, y presennol a'r dyfodol. Gallai dysgwyr ddechrau drwy ystyried y cydberthnasau rhwng lleoliadau a byd gwaith drwy nodi nodweddion eu cymuned leol. Wrth iddynt ddatblygu drwy'r continwwm 3-16 oed, dylai dysgwyr archwilio gyrfaoedd y gorffennol a pham nad ydynt yn bodoli mwyach, a myfyrio ar y ffactorau a allai lywio a dylanwadu ar yrfaoedd y dyfodol.

Drwy ddadansoddi gwybodaeth am y farchnad lafur, gall dysgwyr ddechrau meithrin dealltwriaeth o'r newidiadau yn eu marchnadoedd llafur lleol a chyd-destun cyfleoedd presennol yn lleol a thu hwnt. Gall y broses ddysgu hon gefnogi dysgwyr i archwilio eu Cynefin; gallant ddeall yr effaith y gall hyn ei chael ar eu cymunedau.

Dylai dysgwyr ystyried sawl math o anghydraddoldeb sy’n bodoli heddiw o fewn cyd-destunau sy’n gysylltiedig â gwaith. Bydd meithrin dealltwriaeth o hawliau cyflogaeth, entrepreneuriaeth foesegol, moeseg busnes a phrosesau ac arferion diwydiannol gwyrdd

cynaladwy yn paratoi dysgwyr ar gyfer byd gwaith.

**Mathemateg a Rhifedd**

Mae Addysg a phrofiadau byd gwaith yn galluogi dysgwyr i ddechrau datblygu sgiliau meddwl yn rhesymegol, datrys problemau a gwneud penderfyniadau. Drwy brofiadau ystyrlon sy'n gysylltiedig â gyrfaoedd a gwaith, gall dysgwyr ddod yn fwyfwy ymwybodol o ba mor hanfodol yw mathemateg a rhifedd o fewn byd gwaith, p'un a ydynt yn ymgymryd â rôl gweithiwr neu entrepreneur. Bydd y sgiliau hyn yn galluogi dysgwyr i fanteisio ar gyfleoedd gyrfa cyfoethog ac amrywiol.

Dylai dysgwyr brofi mathemateg a rhifedd mewn cyd-destunau dilys o fewn byd gwaith. Dylai ysgolion a lleoliadau roi diben i ddysgu mathemategol drwy gyfleoedd sy'n datblygu, yn meithrin ac yn gwerthuso sgiliau entrepreneuraidd.

Drwy Addysg a phrofiadau byd gwaith, dylid annog dysgwyr i ddechrau cymhwyso eu sgiliau er mwyn dadansoddi gwybodaeth am y farchnad lafur. Dylai dysgwyr ddod yn fwyfwy ymwybodol o'r ffordd y gellir cymhwyso sgiliau mathemateg a rhifedd er mwyn cefnogi eu llythrennedd ariannol, megis cyfrifo cyllidebau a chyfrifo treth sylfaenol ar nwyddau a gwasanaethau.

**Iaith, Llythrennedd a Chyfathrebu**

Mae Addysg a phrofiadau byd gwaith yn galluogi dysgwyr i ddod yn fwyfwy ymwybodol o'r ffordd y bydd sgiliau a ddatblygir yn y Maes hwn yn eu helpu i addasu i sefyllfaoedd a chynulleidfaoedd amrywiol. Dylai dysgwyr ddechrau gwrando ar eraill ac ymateb iddynt mewn ffordd gynyddol briodol. Gellir datblygu hyn er mwyn galluogi dysgwyr i sefydlu cydberthnasau gwaith cadarnhaol gydag amrywiaeth eang o bobl. Wrth i ddysgwyr ddechrau meithrin hyder wrth ddefnyddio eu sgiliau iaith, llythrennedd a chyfathrebu, dylai ysgolion a lleoliadau eu hannog i gymhwyso a datblygu'r sgiliau hyn drwy Addysg a phrofiadau byd gwaith.

Dylid rhoi cyfleoedd i ddatblygu dealltwriaeth o lythrennedd yn y gweithle drwy ddefnyddio geirfa sy'n gysylltiedig â gwaith, er enghraifft, dylid darparu enwau swyddi, acronymau a therminoleg sy'n gysylltiedig â galwedigaeth benodol. Wrth iddynt feithrin hyder yn eu sgiliau cyfathrebu, a gyda gwybodaeth am yr eirfa hon, gall dysgwyr ddechrau mynegi eu barn yn effeithiol am eu dewis o yrfa a cheisio cyngor ac arweiniad wrth wneud penderfyniadau yn effeithiol.

Dylai dysgwyr ddod yn fwyfwy ymwybodol o bwysigrwydd iaith y corff ynghyd â phwysigrwydd dulliau amgen o gyfathrebu o fewn gweithlu amrywiol a chynhwysol. Wrth i sgiliau cyfathrebu dysgwyr aeddfedu, gallant ddod yn ymwybodol o'u hawliau yn y byd gwaith a bod yn fwy hyderus i herio ymddygiad negyddol.

Mae dysgu ieithoedd yn golygu y gellir cael mynediad at amrywiaeth eang o gyfleoedd sy'n gysylltiedig â gyrfaoedd a gwaith mewn cyd-destunau lleol, rhanbarthol a rhyngwladol. Mae cyflogwyr yn gwerthfawrogi gwybodaeth am ieithoedd gan y gall hyn eu cefnogi i fasnachu'n rhyngwladol, gan sefydlu lle Cymru yn y dirwedd economaidd fyd-eang. Dylai dysgwyr hefyd fod yn ymwybodol o'r galw cynyddol am sgiliau Cymraeg yn y

gweithle, wrth i Gymru weithio tuag at y targed o gael miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050.

### Gwyddoniaeth a Thechnoleg

Dylid annog dysgwyr i fod yn fwyfwy chwilfrydig a gofyn cwestiynau am y byd o'u cwmpas. Mae Addysg a phrofiadau byd gwaith yn cynnig cyd-destun pwysig i ddysgwyr ddod yn ymwybodol o gyfleoedd gyrfa sy'n dod i'r amlwg mewn perthynas â datblygiadau a darganfyddiadau ysbrydoledig ym maes gwyddoniaeth a thechnoleg, a dysgu amdanynt. Gall dysgwyr ymchwilio i'r ffordd y gall y datblygiadau hyn gael dylanwad cadarnhaol neu negyddol ar yr amgylchedd a'r economi.

Gan fod gwyddoniaeth a thechnoleg yn datblygu'n barhaus, mae'n hanfodol cael gweithlu amrywiol sydd â'r gallu i addasu er mwyn diwallu anghenion economaidd Cymru yn y dyfodol. Felly, mae'n bwysig ymdrin â stereoteipio ac anghydraddoldeb o oedran cynnar. Dylai dysgwyr gael cyfleoedd i ddechrau datblygu eu gallu i fod yn greadigol ac yn arloesol, dehongli data a gwybodaeth, rhesymu a meddwl yn rhesymegol. Gall Addysg a phrofiadau byd gwaith roi cyd-destun i ddysgwyr gymhwyso'r sgiliau hyn er mwyn archwilio gwaith dylunio, gweithgynhyrchu a datrys problemau, sgiliau y mae cyflogwyr yn eu gwerthfawrogi. Wrth i ddysgwyr wneud cynnydd, dylid eu cefnogi i ddatblygu ymwybyddiaeth o rôl arloesedd ac awtomatiaeth ddigidol a'u heffaith ar y dirwedd economaidd.

## 4. Cynllunio Addysg a phrofiadau byd gwaith o fewn y cwricwlwm

Er mwyn cefnogi pob dysgwr i wneud cynnydd, dylid cynnwys Addysg a phrofiadau byd gwaith yn y continwwm 3-16 oed ac ym mhob rhan o'r cwricwlwm. Ni ddylid ei addysgu fel pwnc annibynnol. Dylai ysgolion a lleoliadau gynllunio Addysg a phrofiadau byd gwaith fel rhan annatod o'u cwricwlwm a'u profiadau dysgu. Mae gan bob ymarferydd rôl i'w chwarae er mwyn gwireddu hyn.

Dylai ysgolion a lleoliadau ystyried sut y gall Addysg a phrofiadau byd gwaith gynnig dealltwriaeth i ddysgwyr sy'n annog ysbrydoliaeth a dyhead, ond sydd hefyd yn meithrin bod yn realistig o ran posibiliadau yn y dyfodol. Dylai rhaglen Addysg a phrofiadau byd gwaith gwmpasu amrywiaeth eang o brofiadau dysgu ac addysgu, amgylcheddau, gan gynnwys rhai digidol, a chyfraniadau gan amrywiaeth o randdeiliaid. Dylai darpariaeth Addysg a phrofiadau byd gwaith gynnwys cyngor unigol, canllawiau a phrofiadau ystyrlon. Dylid cefnogi hyn gan gyfleoedd i archwilio modelau rôl sy'n briodol o ran oedran a cham datblygu'r disyblion ac sy'n cefnogi cynnydd.

Mae gan rieni a gofalwyr ddylanwad sylweddol ar benderfyniadau gyrfa a datblygiad dysgwr. O ganlyniad, mae'n bwysig rhoi lefel o wybodaeth a dealltwriaeth o raglenni dysgu Addysg a phrofiadau byd gwaith iddynt fel y gallant gefnogi dysgwyr i wneud penderfyniadau uchelgeisiol a realistig.

### Camau ar Gyfer Cynllunio Addysg a phrofiadau byd gwaith yn y Cwricwlwm

### Cam 1 Adolygu Addysg a phrofiadau byd gwaith yn y cwricwlwm

Bydd adolygu rhaglenni dysgu Addysg a phrofiadau byd gwaith yn creu sylfaen ar gyfer datblygu a chefnogi'r gwaith o gynllunio'r cwricwlwm. Efallai y bydd ysgolion a lleoliadau am ystyried y cwestiynau canlynol wrth gynllunio Addysg a phrofiadau byd gwaith yn eu cwricwlwm:

- Pa mor dda rydym yn datblygu gwybodaeth, sgiliau a dealltwriaeth dysgwyr mewn perthynas â Addysg a phrofiadau byd gwaith?
- Pa mor dda rydym yn darparu gweithgareddau a phrofiadau ystyrlon sy'n gysylltiedig â gyrfa a gwaith er mwyn cefnogi ein dysgwyr?
- Pa mor dda rydym yn gweithio gyda rhanddeiliaid, gan gynnwys cyflogwyr, Gyrfa Cymru a rhieni a gofalwyr, i gefnogi a datblygu ein darpariaeth Addysg a phrofiadau byd gwaith?
- Pa mor dda y mae ysgolion a lleoliadau yn cydweithio â'i gilydd er mwyn darparu Addysg a phrofiadau byd gwaith?
- Pa mor dda rydym yn gwerthuso effaith ein darpariaeth Addysg a phrofiadau byd gwaith ar ddealltwriaeth dysgwyr?

### Cam 2 Sefydlu gweledigaeth ar gyfer Addysg a phrofiadau byd gwaith

Dylai ysgolion a lleoliadau sefydlu eu gweledigaeth i gefnogi cynnydd o ran rhaglenni dysgu Addysg a phrofiadau byd gwaith. Dylai hyn gynnwys blaenoriaethau allweddol ar gyfer dysgu, cynllunio gyrfa, cyfnodau pontio llwyddiannus ac ymgysylltu y tu hwnt i'r ysgol neu'r lleoliad. Gallant hefyd fod yn rhan o gynlluniau gwella a datblygu ysgol neu leoliad arall, neu gysylltu â nhw. Efallai y bydd angen nodau datblygu, megis proses fesul cam ar gyfer cyflwyno elfennau Addysg a phrofiadau byd gwaith ym mhob rhan o'r cwricwlwm ynghyd â'u cyflwyno o fewn dysgu proffesiynol i ymarferwyr.

### Cam 3 Adnoddau a chymorth ar gyfer darpariaeth Addysg a phrofiadau byd gwaith

Dylai ysgolion a lleoliadau archwilio deunyddiau dysgu ac addysgu sy'n gwella gwybodaeth, sgiliau a dealltwriaeth mewn perthynas â Addysg a phrofiadau byd gwaith yn y cwricwlwm, gan gynnwys y rhai a gynhyrchir gan Gyrfa Cymru, elusennau a chymdeithasau dysgedig. Dylai deunyddiau dysgu ac addysgu gefnogi ymwybyddiaeth gynyddol dysgwyr o'r amrywiaeth eang o gyfleoedd sydd ar gael iddynt. Dylent hefyd arddangos modelau rôl a mentoriaid sydd â chefndiroedd a nodweddion amrywiol.

Dylid ystyried sut y gall ysgol neu leoliad ddefnyddio'r gefnogaeth sydd ar gael gan rieni a gofalwyr, cyn-fyfyrwyr, cyflogwyr, y gymuned leol, Gyrfa Cymru a rhanddeiliaid eraill yn effeithiol.

### Cam 4 Amlinellu darpariaeth Addysg a phrofiadau byd gwaith

Er mwyn sicrhau bod y ddarpariaeth yn diwallu anghenion dysgwyr ac yn cynnwys cyfleoedd i ddatblygu sgiliau rheoli gyrfa, dylai gael ei chynllunio'n dda a'i hamlinellu yn un o bolisïau'r ysgol neu'r lleoliad.

### Cam 5 Gwerthuso Darpariaeth Addysg a phrofiadau byd gwaith

Dylid gwerthuso'r ddarpariaeth yn rheolaidd gan ddefnyddio prosesau gwerthuso a gwella presennol ysgolion a lleoliadau. Mae hyn yn bwysig er mwyn helpu i ganfod a yw'n diwallu anghenion pob dysgwr a sicrhau tegwch ac amrywiaeth. Dylai darpariaeth

Addysg a phrofiadau byd gwaith yn datblygu'n gyson dros yr hirdymor wrth i'r cwricwlwm gael ei ddatblygu'n barhaus. Caiff prosesau i rannu arferion da a chyfleoedd datblygu proffesiynol eu hannog er mwyn cefnogi'r datblygiadau hyn. Dylai dysgwyr gael eu cynnwys yn y broses werthuso er mwyn eu galluogi i roi adborth i lywio'r gwaith o gynllunio darpariaeth Addysg a phrofiadau byd gwaith yn y dyfodol a gwella deilliannau.

## 5. Cyfranwyr ar gyfer darpariaeth Addysg a phrofiadau byd gwaith effeithiol

Gall amrywiaeth o gyfranwyr ymrwymedig gefnogi ysgolion a lleoliadau i sicrhau darpariaeth Addysg a phrofiadau byd gwaith effeithiol drwy'r cwricwlwm. Bydd angen cymorth gan uwch-arweinwyr i ysgogi'r gwaith o ddatblygu'r cwricwlwm yn barhaus, yn ogystal â chymorth gan weithwyr addysgu proffesiynol er mwyn ei wireddu.

Fel y nodir yn yr adran ar gyd-awduro yng nghanllawiau Cwricwlwm i Gymru, dylai ysgolion a lleoliadau ystyried barn dysgwyr wrth drefnu a datblygu'r cwricwlwm a'i roi ar waith.

Gall ysgolion a lleoliadau ystyried y rheini a all gefnogi darpariaeth Addysg a phrofiadau byd gwaith:

Gall **Llywodraethwyr, Pwyllgorau Rheoli neu'r Awdurdod Lleol** chwarae rôl hanfodol o ran sicrhau y caiff darpariaeth Addysg a phrofiadau byd gwaith ei hadlewyrchu ym mhrosesau cynllunio strategol ac adrodd ysgol neu leoliad. Fel rhan o weledigaeth a chynllun y cwricwlwm, dylent ystyried dull gweithredu cynhwysol ac ysgol gyfan o ymdrin â Addysg a phrofiadau byd gwaith.

Mae **uwch-arweinwyr** yn chwarae rôl bwysig o ran datblygiad strategol Addysg a phrofiadau byd gwaith. Dylent wneud y canlynol:

- goruchwylio'r gwaith o ddatblygu rhaglen Addysg a phrofiadau byd gwaith gydlynol ac effeithiol ar gyfer pob dysgwr, gyda deilliannau clir ar gyfer dilyniant drwy'r continwwm dysgu
- sicrhau bod adnoddau'n cael eu dyrannu ar gyfer darpariaeth Addysg a phrofiadau byd gwaith, gan gynnwys dysgu proffesiynol
- hwyluso cyfranogiad eang gan randdeiliaid, gan gynnwys staff, dysgwyr, rhieni a gofalwyr, cyflogwyr, Gyrfa Cymru a'r gymuned ehangach
- cydgysylltu â'r arweinydd Addysg a phrofiadau byd gwaith a'i gefnogi i gynnal diweddariadau rheolaidd o ran cynnydd a rhannu deilliannau.

Mae **arweinwyr Addysg a phrofiadau byd gwaith** yn grymuso perchnogaeth ymarferwyr dros y ddarpariaeth a'u hymrwymiad iddi. Mae arweinwyr Addysg a phrofiadau byd gwaith yn ymarferwyr sy'n:

- cydlynu ac yn hwyluso dull gweithredu cynhwysol ac ysgol gyfan o ymdrin â darpariaeth Addysg a phrofiadau byd gwaith
- cydgysylltu ag ymarferwyr er mwyn asesu anghenion dysgwyr
- creu ac yn cynnal cydberthnasau â rhanddeiliaid, gan gynnwys dysgwyr
- cefnogi ymarferwyr i wreiddio Addysg a phrofiadau byd gwaith yn y cwricwlwm drwy rannu arferion effeithiol
- nodi deilliannau dysgu mewn perthynas â Addysg a phrofiadau byd gwaith ac yn monitro cynnydd

Mae **ymarferwyr ac arweinwyr y cwricwlwm** yn chwarae rôl bwysig wrth roi dull gweithredu ysgol gyfan o ymdrin â Addysg a phrofiadau byd gwaith ar waith. Mae ymarferwyr ac arweinwyr y cwricwlwm yn:

- cyd-destunoli dysgu a chyfleoedd mewn perthynas â Addysg a phrofiadau byd gwaith drwy'r cwricwlwm ar gyfer pob dysgwr
- ystyried syniadau a llwybrau gyrfa posibl dysgwyr
- sicrhau y caiff rhieni a gofalwyr eu cynnwys yn briodol
- achub ar gyfleoedd dysgu proffesiynol priodol ac yn eu defnyddio'n effeithiol.

Mae **Gyrfa Cymru** yn cynnig gwasanaeth gyrfaoedd cenedlaethol i Gymru, gwasanaeth sy'n ddwyieithog, cynhwysol a diduedd. Llywodraeth Cymru sy'n berchen ar y gwasanaeth ac yn pennu ei gylch gwaith. Cynigir cefnogaeth i ddysgwyr i'w helpu i ddeall byd gwaith yn well, yn ogystal â'r sgiliau sydd eu hangen arnynt a'r cyfleoedd sydd ar gael iddynt. Yn ogystal, mae Gyrfa Cymru yn cynnig cymorth i ysgolion a lleoliadau yn y gwaith o gyflwyno Cwricwlwm i Gymru, ac mae rhai mentrau yn dechrau mewn ysgolion cynradd. Mae'r amrywiaeth o gymorth yn cynnwys:

- darparu cymorth ac adnoddau i helpu ysgolion a lleoliadau i wreiddio Addysg a phrofiadau byd gwaith ym mhob rhan o'u cwricwlwm
- hyfforddi dysgwyr oed uwchradd a rhoi arweiniad iddynt mewn perthynas â gyrfaoedd
- ymgysylltu â rhieni a gofalwyr
- datblygu cysylltiadau rhwng ysgolion a lleoliadau a chyflogwyr

Mae'n fuddiol i ddysgwyr allu cael arweiniad gyrfaoedd mewn sesiynau grŵp a chyfweliadau er mwyn eu helpu i ddewis llwybrau dysgu effeithiol a phriodol cyn ac ôl 16.

Gall profiadau **rhieni a gofalwyr** o addysg a gwaith lywio ffordd y dysgwr o feddwl, ei ddyheadau a'i benderfyniadau, a hynny'n gadarnhaol ac yn negyddol. Dylai ysgolion a lleoliadau annog ymdrechion i gynnwys rhieni a gofalwyr mewn digwyddiadau Addysg a phrofiadau byd gwaith a sicrhau eu bod yn ymwybodol o'r cymorth a ddarperir yn yr ysgol neu'r lleoliad. Mae hefyd yn bosibl y bydd rhieni a gofalwyr yn gallu cyfrannu at ddatblygu a gwireddu rhaglenni dysgu Addysg a phrofiadau byd gwaith fel rhan o gwricwlwm yr ysgol neu'r lleoliad.

Gall **sefydliadau addysg bellach ac addysg uwch a darparwyr dysgu yn y gweithle** gyfrannu at ddarpariaeth Addysg a phrofiadau byd gwaith a'i hwyluso drwy arddangos yr amrywiaeth o gyfleoedd academaidd, prentisiaeth a hyfforddi a all helpu i godi dyheadau dysgwyr ac ehangu eu gorwelion. Gallant hefyd ddarparu modelau rôl y gellir uniaethu â nhw i ysbrydoli dysgwyr, ynghyd â darparu mentoriaid i'w cefnogi. Gall rhai gynnig cyfleoedd dysgu proffesiynol i ymarferwyr fel y gallant ddysgu mwy am y cyfleoedd sydd ar gael i'w dysgwyr.

Gall **cyflogwyr** weithio'n agos gydag ysgolion a lleoliadau, wedi'u cefnogi gan Gyrfa Cymru a chymdeithasau dysgedig, er mwyn cynnig cyfleoedd i ysbrydoli ac ysgogi dysgwyr. Gallant roi gwybodaeth i ddysgwyr am fyd gwaith a'r sgiliau sydd eu hangen i lwyddo yn y dyfodol drwy weithgareddau ymgysylltu a chyfoethogi. Gall cyflogwyr gynnig cyd-destun o'r byd go iawn ar gyfer amrywiaeth eang o ddarpariaeth dysgu ym mhob rhan o'r cwricwlwm, gan arddangos ystod o gyfleoedd cyflogaeth.

Drwy ymgysylltu â chyflogwyr, gellir dangos i ddysgwyr y pwyslais y mae cyflogwyr yn ei roi ar agweddau ac ymddygiadau proffesiynol cadarnhaol, gan gynnwys

hunangymhelliant, gwydnwch, chwilfrydedd, y gallu i addasu ac uchelgais. Mae cyflogwyr hefyd yn gwerthfawrogi profiadau cysylltiedig â gwaith, gweithgareddau gwirfoddoli a gweithgareddau allgyrsiol, sy'n helpu'r dysgwr i ddatblygu ei sgiliau.

## 6. Cymorth ac arweiniad i ysgolion a lleoliadau

Wrth sefydlu a chynnal arferion effeithiol o ran darparu Addysg a phrofiadau byd gwaith, gall y canlynol chwarae rôl bwysig:

**Dysgu proffesiynol**

Dylai ysgolion a lleoliadau sicrhau bod eu staff yn cymryd rhan mewn cyfleoedd dysgu proffesiynol priodol a pherthnasol er mwyn helpu i integreiddio Addysg a phrofiadau byd gwaith yn effeithiol yn eu cwricwlwm.

Anogir ymarferwyr i achub ar gyfleoedd hyfforddiant a gynigir gan gyflogwyr a sefydliadau eraill hefyd, er mwyn eu helpu i ddysgu am y datblygiadau diweddaraf o fewn byd gwaith. Er enghraifft, ymgysylltu â Gyrfa Cymru a chonsortia addysg rhanbarthol, a manteisio ar fodiwlau dysgu sydd ar gael ar-lein. Mae cyrsiau ar gael i'r rhai sydd am ennill cymhwyster proffesiynol sy’n gysylltiedig â gyrfa.

**Profiad cysylltiedig â gwaith**

Mae gan waith hirdymor a pharhaus i ymgysylltu â chyflogwyr y potensial i ysbrydoli a gwella dealltwriaeth dysgwyr o'r byd gwaith. Mae'n bwysig sicrhau bod profiadau cysylltiedig â gwaith yn eang ac yn amrywiol. Dylai dysgwyr feithrin dealltwriaeth o'r ffaith bod byd gwaith yn fwy na gwaith â thâl yn unig.

Felly dylai ysgolion a lleoliadau weithio gydag amrywiaeth eang o gyflogwyr er mwyn cynnig gweithgareddau cyfoethogi o ansawdd uchel i ddysgwyr. Gall cyfleoedd i wirfoddoli a chyfranogi yn y gymuned helpu dysgwyr i ddatblygu sgiliau cysylltiedig â gwaith a hybu eu hiechyd a'u lles. Dylai profiadau cysylltiedig â gwaith arddangos yr amrywiaeth o gyfleoedd gyrfa sydd ar gael mewn cyd-destun lleol, cenedlaethol a rhyngwladol.

Mae'n hanfodol ystyried iechyd a diogelwch, polisïau diogelu ac asesiadau risg wrth drefnu profiadau cysylltiedig â gwaith. Er mwyn i ymarferwyr sicrhau'r budd mwyaf o brofiadau cysylltiedig â gwaith, byddai'n ddefnyddiol gwneud y canlynol:

- sicrhau bod y profiadau yn hygyrch i'r holl ddysgwyr, gan ystyried eu hanghenion penodol a'u diddordebau
- cynnig cyfleoedd i ddysgwyr fyfyrio
- annog dysgwyr i werthfawrogi'r cysylltiadau â'r cwricwlwm
- herio safbwyntiau dysgwyr, ymarferwyr, rhieni a gofalwyr ar faterion megis stereoteipio yn y gweithle
- gofyn am adborth gan gyflogwyr ar gynnydd dysgwyr, ac ar eu profiad o ymgysylltu â'r ysgol neu'r lleoliad
- galluogi dysgwyr i adeiladu ar eu diddordebau a'u cryfderau personol, gan gymhwyso eu dysgu i yrfaoedd, a phrofiadau sy'n gysylltiedig â byd gwaith.

Bydd cyfleoedd profiad gwaith yn amrywio yn dibynnu ar dirwedd economaidd yr ardal

leol a'r math o gyflogwyr sydd yno. Dylid ystyried opsiynau digidol er mwyn ehangu gorwelion a chysylltu â mwy o gyflogwyr.

**Gwybodaeth am y farchnad lafur a Addysg a phrofiadau byd gwaith**

Mae gwybodaeth gywir am y farchnad lafur yn hysbysu dysgwyr ac eraill am y byd gwaith presennol a'r ffordd y mae'n datblygu. Mae ymgysylltu â'r wybodaeth hon a'i deall yn galluogi dysgwyr i fod yn ymwybodol o dueddiadau o ran cyflog, rolau a lleoliad. Bydd hyn yn helpu dysgwyr i wneud penderfyniadau effeithiol, yn seiliedig ar wybodaeth ynghylch gwaith, astudio a llwybrau hyfforddi eraill, a datblygu'r wybodaeth a'r ddealltwriaeth sydd eu hangen er mwyn rhoi eu cynlluniau ar waith.

Mae adnoddau gwybodaeth am y farchnad lafur ar gael gan Gyrfa Cymru ac eraill, megis Arsyllfeydd Dysgu a Sgiliau Partneriaethau Sgiliau Rhanbarthol a Llywodraeth Cymru. Dylai ysgolion a lleoliadau ymgorffori gwybodaeth ddiduedd a chyfredol am y farchnad lafur, sy'n briodol o ran cam datblygu'r dysgwyr, ar lefel leol, rhanbarthol a chenedlaethol, er mwyn sicrhau bod darpariaeth Addysg a phrofiadau byd gwaith wedi'i chynllunio'n dda i ddiwallu anghenion pob dysgwr.  Gellir defnyddio gwybodaeth am y farchnad lafur i lywio'r gwaith o gynllunio profiadau sy’n gysylltiedig â gyrfaoedd a byd gwaith.

## Rhestr Termau

| | |
|---|---|
| Addysg gyrfaoedd | Dysgu am yrfaoedd fel rhan o'r cwricwlwm, yn aml bydd cysylltiad agos rhwng hyn a phrofiad gwaith a mathau eraill o brofiadau cysylltiedig â gwaith. Nod addysg gyrfaoedd yw cefnogi unigolion i feithrin sgiliau a gwybodaeth sy'n gysylltiedig â phrofiadau ystyrlon o fyd gwaith. |
| Arsyllfa Dysgu a Sgiliau | System wybodaeth ar-lein ryngweithiol ganolog, a ddarperir gan Bartneriaeth Sgiliau Rhanbarthol, sy’n cynnig data a gwybodaeth leol ynghylch anghenion sgiliau. Mae yna dair partneriaeth sgiliau rhanbarthol sy’n dadansoddi heriau economaidd a’r meysydd twf tebygol er mwyn nodi’r sgiliau sydd eu hangen yn y gweithlu. |
| Arweiniad gyrfaoedd | Ymyriad cefnogol gan arbenigwr lle caiff sgiliau, nodweddion a diddordebau unigolyn eu hystyried er mwyn ei helpu i wneud dewisiadau o ran addysg, hyfforddiant a galwedigaeth i'w helpu i baratoi ar gyfer byd gwaith. |
| Cyflogwyr | Defnyddir y term hwn mewn modd cyfannol yn y canllawiau er mwyn crynhoi'r amrywiaeth o unigolion a sefydliadau sy'n gysylltiedig â chefnogi pobl ifanc i ddysgu am fyd gwaith. Mae hyn yn cynnwys gweithwyr ac entrepreneuriaid, pobl hunangyflogedig, busnesau bach a chanolig a chyrff/sefydliadau yn y sector cyhoeddus a phreifat, mentrau cymdeithasol, a sefydliadau'r sector gwirfoddol a'r trydydd sector. |
| Cymdeithas ddysgedig | Sefydliad sy’n ceisio hyrwyddo addysg a datblygiad proffesiynol ar gyfer proffesiwn neu sector penodol, er budd cymdeithas a’r economi. |
| Cynefin | Y lle rydym yn teimlo ein bod yn perthyn, lle mae’r bobl a’r dirwedd o’n cwmpas, yr hyn a welwn ac a glywn yn gyfarwydd ac yn gysurus. Nid lle daearyddol yn unig yw cynefin: mae’n cwmpasu’r ffactorau hanesyddol, diwylliannol a chymdeithasol sydd wedi’i greu ac sy’n parhau i greu’r gymuned sy’n byw yno. |
| Cynghorwyr Gyrfaoedd | Gweithwyr proffesiynol sy'n ystyried mai rhoi arweiniad gyrfaoedd a choetsio yw eu prif weithgarwch proffesiynol |
| Darparwyr dysgu yn y gweithle | Sefydliad sy’n darparu hyfforddiant i ddysgwyr drwy raglen ddysgu sy’n cwmpasu prentisiaethau, hyfforddeiaethau a sgiliau cyflogadwyedd. |
| Gwybodaeth am y farchnad lafur | Gwybodaeth am ystadegau, gwaith ymchwil a dadansoddiadau ar dueddiadau economaidd ac o ran swyddi nawr ac yn y dyfodol, i lywio a chefnogi penderfyniadau wrth gynllunio gyrfa. |
| Gwybodaeth am yrfaoedd | Gwybodaeth ac adnoddau ynghylch cyrsiau, galwedigaethau a llwybrau gyrfa |
| Hyfforddeiaeth | Rhaglen addysg a hyfforddiant sy'n ymgorffori profiad gwaith, gan baratoi pobl ifanc ar gyfer eu gyrfaoedd yn y dyfodol drwy eu helpu i fod yn ‘barod am waith’. |
| Ôl digidol | Term i ddisgrifio effaith gweithgareddau ar-lein ar y dysgwr, gan gynnwys yr hyn y mae’n ei weld, yn ei glywed neu’n ei ddarllen yn ogystal â’r hyn y mae eraill yn ei ddweud wrtho ac yn ei wneud iddo ar-lein. |
| Profiad cysylltiedig â gwaith | Darparu cyfleoedd i ddatblygu gwybodaeth a dealltwriaeth o waith ac ennill sgiliau cyflogadwyedd drwy brofiadau uniongyrchol o waith. |

| | |
|---|---|
| Sector | Rhan benodol o'r economi sy'n delio â'r un cynnyrch, gwasanaeth, set sgiliau neu thema, neu eu tebyg. |
| Sgiliau entrepreneuraidd | Set sgiliau sy'n galluogi pobl i weld cyfleoedd a gwneud y mwyaf ohonynt, goresgyn problemau a dysgu oddi wrthynt, a llwyddo. Mae cyflogwyr yn gwerthfawrogi'r sgiliau hyn ac maent yn ased hanfodol i'r hunangyflogedig. |